



COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus (PB1)



Cynnwys

Rhan 1: Am y canllaw hwn	2
Rhan 2: Beth yw ystyr 'er budd y cyhoedd'	5
Rhan 3: Diben buddiol	7
Rhan 4: Colled neu niwed	8
Rhan 5: Rhoi budd i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd	9
Rhan 6: Budd personol	13
Rhan 7: Gwybodaeth bellach	14
Atodiad A: Rheolau gwahanol ar gyfer elusennau tlodi	15
Atodiad B: Termau technegol	16

Rhan 1: Am y canllaw hwn

Gofyniad cyfreithiol: mae'r canllaw hwn yn esbonio'r gofyniad cyfreithiol sy'n datgan bod rhaid i ddiibenion elusen fod er 'budd y cyhoedd'. Gelwir hyn y 'gofyniad budd cyhoeddus'.

Mae'r gofyniad hwn yn effeithio ar statws sefydliad fel elusen.

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i chi os ydych chi'n ystyried sefydlu neu gofrestru elusen. Mae hefyd yn berthnasol os ydych yn ymddiriedolwr elusen sydd am newid diben eich elusen.

Fe'i hysgrifennwyd i hyrwyddo ein hamcan budd cyhoeddus statudol sef 'hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithrediad y gofyniad budd cyhoeddus'.

Canllawiau budd cyhoeddus eraill

Mae'r canllaw hwn yn rhan o gyfres o dri chanllaw budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau. Mae'n ymwneud â dibenion eich sefydliad ac a ydynt yn elusennol.

Mae materion sy'n ymwneud â chyflawni'r dibenion hynny er budd y cyhoedd, neu wrth adrodd ar hynny, yn cael sylw mewn canllawiau budd cyhoeddus eraill:

- **Budd cyhoeddus: rhedeg elusen** (PB2) - Mae'r canllaw hwn yn esbonio budd cyhoeddus yng nghyd-destun rhedeg elusen
- **Budd cyhoeddus: adrodd** (PB3) - Mae'r canllaw hwn yn esbonio dyletswydd ymddiriedolwyr i adrodd ar sut y maen nhw wedi cyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd

Igael gwybod rhagor am ein canllawiau budd cyhoeddus gweler:

- **Budd cyhoeddus: trosolwg**

Ystyried ein canllaw budd cyhoeddus

Gofyniad cyfreithiol: mae'r Ddeddf Elusennau yn datgan bod rhaid i ymddiriedolwyr elusen 'roi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus 'wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt'.

Mae 'rhoi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus yn golygu y dylai ymddiriedolwyr elusen allu dangos eu bod:

- yn ymwybodol o'r canllawiau
- wedi rhoi sylw i'r canllawiau pan fyddant yn gwneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo
- os ydynt wedi penderfynu gweithredu'n wahanol i'r canllawiau, bod rhesymau da ganddynt dros wneud hynny.

Cyfeiriadau at ganllawiau eraill

Mewn rhai manau yn y canllaw hwn ceir dolenni i ganllawiau perthnasol eraill a allai fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr y canllaw hwn gyfeirio atynt.

Os nad yw'r canllaw arall yn ffurfio rhan o'n cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus, ac felly nid yw'n ganllaw y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen 'roi sylw' iddo, nodir hynny.

Y gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus

Nid yw ein canllaw budd cyhoeddus yn gyfraith ar fudd cyhoeddus. Mae'r gyfraith ar fudd cyhoeddus i'w gweld mewn deddfwriaeth elusennau a phenderfyniadau'r llysoedd.

Mae ein canllawiau budd cyhoeddus yn ganllawiau cyffredinol lefel uchel wedi'u hysgrifennu i ymddiriedolwyr elusen i esbonio beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus a sut rydym yn dehongli ac yn cymhwyso'r gyfraith honno.

Gwnawn benderfyniadau am fudd cyhoeddus mewn achosion unigol yn seiliedig ar y gyfraith fel y bo'n gymwys i ffeithiau'r achos arbennig, ac nid ar y canllawiau lefel uchel hyn oherwydd ni all ein canllawiau cyffredinol gwmpasu holl gymhlethdodau'r gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus.

Igael rhagor o wybodaeth am ein barn ni ar yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus gweler:

- **Dadansoddiad o'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus**

Gall y dadansoddiad hwn o'r gyfraith fod o ddi-ddordeb i ymddiriedolwyr elusen a hoffai wybod mwy am sail gyfreithiol ein canllawiau. Fodd bynnag, nid yw'n ffurfio rhan o'n cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus, ac felly nid yw'n ganllaw y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen roi sylw iddo fel y cyfryw.

Defnyddio 'rhaid' a 'dylai'


Mae'r gair 'rhaid' yn cael ei ddefnyddio pan fydd gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag ef. Mae 'dylai' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y canllawiau arfer da lleiaf y dylech eu dilyn oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Cynigiwn gyngor llai ffurfiol hefyd ac argymhellion a allai fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr wrth iddynt reoli eu helusen.

Y fframwaith budd cyhoeddus

Mae'r siart canlynol yn dangos i chi ble mae'r gofyniad budd cyhoeddus wedi'i gynnwys yn y fframwaith cyffredinol a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch sefydliad fod yn elusen, gweithredu fel elusen ac adrodd ar waith eich elusen.

Fframwaith budd cyhoeddus



Rhan 2: Beth yw ystyr 'er budd y cyhoedd'

Y 'gofyniad budd cyhoeddus'

Mae'r Ddeddf Elusennau yn rhoi diffiniad cyfreithiol o ystyr y term 'elusen'.

Gofyniad cyfreithiol: mae rhan o'r diffiniad yn dweud er mwyn i sefydliad fod yn 'elusen' mae'n rhaid iddo gael 'dibenion elusennol' yn unig.

'Dibenion' elusen yw'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w gyflawni.

Gofyniad cyfreithiol: mae rhan o ddiffiniad y Ddeddf Elusennau o 'ddiben elusennol' yn dweud bod rhaid iddo fod 'er budd y cyhoedd'. Mae Deddf Elusennau yn galw hyn y 'gofyniad budd cyhoeddus'.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r gofyniad budd cyhoeddus.

I wybod rhagor am agweddau eraill ar y diffiniad o ddiben elusennol a'r hyn sy'n gwneud elusen gweler:

- **Beth sy'n gwneud elusen** (CC4) (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Agweddau ar fudd cyhoeddus

Mae dwy agwedd ar fudd cyhoeddus:

- yr 'agwedd budd'
- 'yr 'agwedd cyhoeddus'

Gofyniad cyfreithiol: yn gyffredinol, at ddiben bod 'er budd y cyhoedd' mae'n rhaid iddo fodloni'r agweddau 'budd' a 'chyhoeddus'.

Fodd bynnag, os mai'r diben yw lleddfu neu atal tlodi, mae rheolau gwahanol yn gymwys. I gael rhagor am hyn gweler:

- Atodiad A - Rheolau gwahanol ar gyfer elusennau tlodi

Yr 'agwedd budd'

Mae'r 'agwedd budd' ar fudd cyhoeddus yn ymwneud â'r diben ac a yw'n fuddiol.

Gofyniad cyfreithiol: er mwyn bodloni'r 'agwedd budd' ar fudd cyhoeddus:

- mae'n rhaid i ddiben fod yn fuddiol (gweler rhan 3 y canllaw hwn)
- ni all unrhyw niwed neu golled sy'n deillio o'r diben fod yn fwy na'r budd (gweler rhan 4 y canllaw hwn)

Yr 'agwedd cyhoeddus'

Mae'r 'agwedd cyhoeddus' ar fudd cyhoeddus yn ymwneud â'r diben a phwy sy'n cael budd.

Gofyniad cyfreithiol: er mwyn bodloni 'agwedd cyhoeddus' ar fudd cyhoeddus mae'n rhaid i'r diben:

- gynnig budd i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ran ddigonol o'r cyhoedd (gweler rhan 5 y canllaw hwn)
- peidio â rhoi mwy na budd personol damweiniol (gweler rhan 6 y canllaw hwn)

Ein penderfyniadau am fudd cyhoeddus

Mae'n rhaid i bob diben elusen fod er budd y cyhoedd.

Gall fod mwy nag un diben gan nifer o elusennau. Os mai dyma yw'r achos, byddwn yn edrych ar bob diben ar ei ben ei hun i benderfynu a yw er budd y cyhoedd. Nid oes modd defnyddio budd cyhoeddus un diben i wrthbwysu unrhyw ddiffyg budd cyhoeddus mewn diben arall.

Fel y byddai'r llysoedd, byddwn yn pwysu a mesur yr holl ffactorau a thystiolaeth berthnasol i benderfynu a yw pob diben, ar ei ben ei hun:

- yn fuddiol
- yn rhoi budd i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ran ddigonol ohono

Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn debygol o fod yn amlwg.

Gall y ddwy agwedd ar fudd cyhoeddus orgyffwrdd. Gall ffactor gael ei ystyried yn aml fel un sy'n cael effaith ar y ddwy agwedd.

Weithiau efallai y bydd rhaid i ni ystyried y berthynas rhwng yr hyn sy'n fuddiol a'r hyn sy'n niweidiol, a'r budd cyhoeddus a phersonol.

Mae rhai achosion yn gofyn am farn gynnil i ystyried a yw'r holl ffactorau, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn creu diben sydd er budd y cyhoedd. Rydym yn ystyried pob achos yn ei gyd-destun ei hun.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn glir bod diben sefydliad er budd y cyhoedd. Os nad yw'n glir, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr neu'r sawl sy'n gwneud cais i gofrestru lle mae'r anawsterau.

Mewn achosion prin lle nad oes modd i'r ymddiriedolwyr neu'r ymgeisydd unioni pethau ac rydym yn penderfynu nad yw diben sefydliad er budd y cyhoedd, byddai hynny'n golygu, yn ein barn ni, nad yw'r sefydliad yn elusen.

Os ydym yn penderfynu mai dyma yw'r achos i sefydliad sy'n gwneud cais i gofrestru, byddem yn gwrthod ei gofrestru.

Os ydym yn penderfynu mai dyma yw'r achos ar gyfer elusen sy'n bod, bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen ystyried newid y diben a dylent geisio cyngor.

I gael gwybodaeth am newid dogfen lywodraethol eich elusen gweler **Newid enw neu ddogfen lywodraethol eich elusen** (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus).

Mewn achosion prin iawn lle nad oes modd newid y diben, byddai'n rhaid i ni ddileu'r sefydliad o'r gofrestr elusennau.

I wybod rhagor am yr hyn sy'n digwydd pan fyddwn yn penderfynu hyn gweler:

- **Cadw cofrestr gywir** (RR6) (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Herio penderfyniad y Comisiwn

Os ydym yn gwrthod cofrestru sefydliad, neu'n penderfynu dileu sefydliad o'r gofrestr, ac mae'r ymddiriedolwyr neu'r ymgeiswyr yn meddwl bod ein penderfyniad yn anghywir, efallai y byddant yn gallu ei herio.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler:

- **Cwyno am benderfyniad rydym wedi'i wneud** (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Rhan 3: Diben buddiol

Beth sy'n fuddiol

Gofyniad cyfreithiol: er mwyn i ddiben fod yn elusennol mae'n rhaid iddo fod yn fuddiol mewn ffordd sy'n adnabyddadwy a:

- gallu cael ei brofi drwy dystiolaeth os oes angen
- heb gael ei seilio ar farn bersonol

Darparu tystiolaeth o fudd

Mewn rhai achosion mae'r diben mor amlwg yn fuddiol fel nad oes llawer o angen i'r ymddiriedolwyr ddarparu tystiolaeth i brofi hyn.

Er enghraifft, ni fyddai'n rhaid i ymddiriedolwyr sefydliad sydd â'r diben o ddarparu cymorth brys yng nghyd-destun trychineb naturiol ddarparu tystiolaeth bod y diben yn fuddiol.

Os nad yw'n glir bod y diben yn fuddiol, mae'n bosib y bydd rhaid i ni ofyn am dystiolaeth.

Er enghraifft, efallai y bydd rhaid i ni ofyn am dystiolaeth o:

- werth pensaernïol neu hanesyddol adeilad wedi'i warchod o dan ddiben hyrwyddo treftadaeth
- gwerth artistig casgliad celf wedi'i arddangos o dan ddiben hyrwyddo diben celf
- manteision iacháu therapi sy'n cael ei ddarparu o dan ddiben hyrwyddo iechyd
- gwerth addysgol rhaglen hyfforddi a gynigir o dan ddiben hyrwyddo addysg

Mesur yr hyn sy'n fuddiol

Dylai fod modd adnabod a disgrifio sut mae diben elusen yn fuddiol, a oes modd ei feintioli neu ei fesur neu beidio.

Er enghraifft, gall meithrin chwaeth artistig rhywun drwy edrych ar weithiau celf fod yn fuddiol er ei fod yn anodd ei feintioli neu ei fesur.

Ddim yn fuddiol

Os na ellir dangos bod diben sefydliad yn fuddiol (yn seiliedig ar dystiolaeth y gallai llys ei derbyn os oes angen) ni fydd yn ddiben elusennol.

Rhan 4: Colled neu niwed

Sut gallai colled neu niwed effeithio ar y gofyniad budd cyhoeddus

Gofyniad cyfreithiol: ni all diben fod yn ddiben elusennol os yw unrhyw golled neu niwed sy'n deillio ohono yn fwy na'r budd.

Tystiolaeth o golled neu niwed

Mae colled neu niwed yn cael ei ystyried os yw'n rhesymol i ddisgwyl y bydd yn deillio o ddiben y sefydliad unigol. Bydd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth, nid ar farn bersonol.

Os yw budd diben yn amlwg ac yn cael ei gydnabod yn gyffredin, mae hyd yn oed fwy o angen am dystiolaeth o golled neu niwed i fod yn glir a sylweddol, os yw am fod yn fwy na'r budd.

Rhan 5: Rhoi budd i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd

Y cyhoedd

Gofyniad cyfreithiol: er mwyn i ddiben fod yn elusennol mae'n rhaid iddo naill ai roi budd:

- i'r cyhoedd yn gyffredinol neu
- i ran ddigonol o'r cyhoedd

Beth yw ystyr 'y cyhoedd yn gyffredinol'

Mae hyn yn golygu y gall y cyhoedd cyfan gael budd o'r diben.

Nid yw budd y diben wedi'i gyfyngu i bobl sydd ag angen arbennig neu sy'n rhaid bodloni meini prawf eraill.

Os nad yw diben yn pennu pwy all gael budd, yn gyffredinol cymerir ei fod yn golygu y bydd yn rhoi budd i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Enghraifft o ddiben sydd er budd y cyhoedd yn gyffredinol yw un sy'n ymwneud â gwarchod rhywogaeth sydd mewn perygl.

Beth yw ystyr 'rhan ddigonol o'r cyhoedd'

Gofyniad cyfreithiol: gall diben elusennol fod o fudd i ran o'r cyhoedd, ond mae'n rhaid i'r rhan fod yn briodol (neu'n 'ddigonol') mewn perthynas â'r diben arbennig.

Gelwir rhan ddigonol o'r cyhoedd yn 'ddosbarth cyhoeddus' o bobl.

Nid oes isafswm nifer o bobl sy'n rhaid cael budd er mwyn bod yn 'ddosbarth cyhoeddus'.

Nid yw penderfynu bod rhan o'r cyhoedd yn 'ddosbarth cyhoeddus' neu beidio yr un fath ar gyfer pob diben. Efallai na fydd yr hyn sy'n ddigonol ar gyfer un diben yn ddigonol ar gyfer diben arall.

Diffinio pwy all gael budd ar sail ble mae pobl yn byw

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd pobl sy'n byw mewn unrhyw ardal ddaearyddol (lleol, cenedlaethol neu ryngwladol) yn rhan ddigonol o'r cyhoedd.

Enghraifft o amgylchiadau pan na fydd yn ddigonol efallai yw pan fydd ardal ddaearyddol wedi'i diffinio'n rhy gul (e.e. pobl yn byw mewn ychydig o dai a enwir).

Nid oes rhaid i'r ardal ddaearyddol fod yng Nghymru a Lloegr. Gall sefydliad a gafodd ei sefydlu a'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr fod yn elusen hyd yn oed os mai ei ddiben yw cynnig budd i bobl sydd i gyd yn dod o'r tu allan i'r ardal honno.

Diffinio pwy all gael budd fel pobl neu gymunedau sydd ag angen elusennol arbennig

Mae hyn yn rhan ddigonol o'r cyhoedd yn aml.

Diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at 'nodweddion a warchodir'

Gofyniad cyfreithiol: mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu i elusennau roi budd i bobl wedi'u diffinio drwy gyfeirio at 'nodwedd a warchodir', ar yr amod bod cyfyngu'r buddion i bobl sydd â'r nodwedd honno wedi'i gyfiawnhau mewn perthynas â'r diben.

Mae'r canlynol yn 'nodweddion a warchodir'.

- oedran
- anabledd
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil neu genedligrwydd
- crefydd neu gred

I gael gwybod rhagor am eithrio elusennau yn y Ddeddf Cydraddoldeb gweler adrannau B ac C o:

- **Cyfyngu pwy all gael budd gan elusennau** (Nid yw hyn yn rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at liw croen rhywun

Gofyniad cyfreithiol: ni all elusennau ddiffinio eu buddiolwyr drwy gyfeirio at liw croen. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu hyn.

Os yw diben elusen yn diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at liw eu croen, bydd y diben yn cael ei ddarllen fel pe na bai'r cyfeiriad at liw croen yn bodoli.

Diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at alwedigaeth neu broffesiwn rhywun

Gall hyn fod yn rhan ddigonol o'r cyhoedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Enghraifft o elusen a allai ddiffinio pwy sy'n cael budd drwy gyfeirio at alwedigaeth neu broffesiwn yw elusen sydd â'r diben o leddfu salwch ac anabledd athrawon mewn swydd, cyn athrawon ac athrawon sydd wedi ymddeol a'u dibynyddion.

Diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at berthynas deuluol rhywun, perthynas gytundebol (e.e. cyflogaeth gan gyflogwr) neu aelodaeth o gymdeithas anghorfforedig

Gofyniad cyfreithiol: yn gyffredinol, ni all elusen gael diben sy'n diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at:

- eu perthynas deuluol
- eu cyflogaeth gan gyflogwr
- eu haelodaeth o gymdeithas anghorfforedig

Mae'r gyfraith yn caniatáu hyn dim ond os yw'r diben yn lleddfu (ac mewn rhai achosion yn atal) tlodi.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler Atodiad A: Gwahanol reolau ar gyfer elusennau tlodi

Diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at fathau eraill o nodweddion personol, megis eu statws cyflogaeth

Mae penderfynu beth yw rhan o'r cyhoedd yn dibynnu ar y diben a gaiff ei hyrwyddo a'r amgylchiadau penodol.

Er enghraifft, gall 'pobl sy'n ddi-waith' fod yn rhan ddigonol o'r cyhoedd os mai'r diben yw helpu'r di-waith neu helpu'r tlawd. Ond efallai na fydd yn rhan ddigonol os mai'r diben yw hyrwyddo crefydd.

Penderfynu beth sy'n rhan 'ddigonol' o'r cyhoedd

Mae hyn yn cael ei benderfynu fesul achos.

Mae penderfyniadau am hyn yn cael eu llywio gan beth mae'r llysoedd wedi derbyn neu wrthod eu derbyn mewn achosion eraill.

Er enghraifft, yn gyffredinol bydd y llysoedd yn derbyn bod diben yn rhoi budd i ran ddigonol o'r cyhoedd os yw ei fuddiolwyr wedi'u diffinio yn ôl:

- ble maen nhw'n byw
- angen elusennol
- 'nodwedd a warchodir'

Gofyniad cyfreithiol: ni all elusennau ddiffinio eu buddiolwyr yn y ffyrdd canlynol oherwydd ni fyddant yn rhoi budd i ran ddigonol o'r cyhoedd:

- diben sy'n diffinio pwy all gael budd ar sail 'nodwedd a warchodir' ond nid yw'n bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb
- diben sy'n diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at liw eu croen
- diben sy'n diffinio pwy all gael budd ar sail cysylltiad personol (oni bai bod y diben yn lleddfu, ac mewn rhai achosion, yn atal tlodi)

- diben sy'n eithrio'r tlawd rhag cael budd - mae'r gyfraith elusennau yn cydnabod bod 'y tlawd' yn derm perthynol sy'n dibynnu ar yr amgylchiadau. Fodd bynnag, nid yw'r 'tlawd' yn golygu dim ond y rhai mwyaf tlawd mewn cymdeithas a gall gynnwys pobl o incwm cymedrol
- diben sydd wedi'i gyfyngu i sefydliad crefydd caeedig
- diben lle mae'r buddiolwyr posibl (nawr ac yn y dyfodol) yn cael eu henwi, megis unigolyn neu unigolion neu grŵp penodol o unigolion
- diben lle mae nifer y bobl a all gael budd (nawr ac yn y dyfodol) yn ddibwys yn rhifiadol (oni bai bod y diben yn lleddfu, ac mewn rhai achosion, yn atal tlodi)
- diben sy'n diffinio pwy all gael budd mewn ffordd sydd, o'i gysylltu â'r diben, yn 'fympwyol' (e.e. yn hollol amherthnasol, yn afresymol neu heb reswm da)
- diben sy'n rhoi budd i aelodau cymdeithas gydfuddiannol
- (oni bai bod y budd yn lleddfu, ac mewn rhai achosion yn atal, tlodi) diben sy'n bodoli er budd aelodau'r sefydliad yn unig oni bai:
 - y gall rhan ddigonol o'r cyhoedd gael mynediad i'r buddion hynny drwy fod yn aelodau ac
 - mae'r aelodaeth yn ffordd addas o gyflawni diben yr elusen er budd y cyhoedd

Mae clwb aelodau preifat (neu 'hunanystyriol') yn bodoli er budd ei aelodau yn unig fel arfer, ac felly ni all fod er budd y cyhoedd. Hyd yn oed os oes aelodaeth agored ganddo, nid yw sefydliad sy'n 'fewnblyg' wedi'i gefnogi gan ei aelodau at ddiben darparu budd i'r aelodau, yn rhoi budd i ddosbarth cyhoeddus o bobl ac felly ni all fod yn elusen.

Os nad yw'n glir a yw dibenion eich sefydliad yn rhoi budd i'r cyhoedd neu beidio, neu ran ddigonol ohono, bydd rhaid i chi esbonio pwy all gael budd a pham ei bod yn rhan o'r cyhoedd.

Byddwn yn gwneud penderfyniad ym mhob achos ar sail y ffeithiau hynny.

Os yw'n aneglur o hyd a fydd y diben yn rhoi budd i'r cyhoedd neu beidio, neu ran ddigonol ohono, ni allwn gydnabod eich sefydliad fel elusen yn ôl y gyfraith, oherwydd ni fydd y 'gofyniad budd cyhoeddus' wedi'i fodloni.

Rhan 6: Budd personol

Gofyniad cyfreithiol: gall budd elusennol roi buddion personol dim ond os ydynt yn 'ddamweiniol' i gyflawni'r diben.

Beth yw ystyr 'budd personol'

Mae 'budd personol' (weithiau'n cael ei alw'n 'fudd preifat') yn golygu budd y mae rhywun yn ei gael gan elusen. Gallai'r 'rhywun' hwnnw fod yn unigolyn neu'n sefydliad.

Beth yw ystyr 'damweiniol'

Mae budd personol yn 'ddamweiniol' os (gan ystyried ei natur a'i faint) yw'n ganlyniad neu'n sgil-gynnyrch angenrheidiol i gyflawni'r diben

Nid yw'r posibilrwydd y gallai diben ddarparu budd personol damweiniol atal y diben rhag bod er budd y cyhoedd.

I weld enghreifftiau o'r math o fudd personol a allai godi o ddiben elusen neu redeg elusen, gweler:

- **Enghreifftiau o fudd personol** (Nid yw'n rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Budd personol mewn cyd-destunau eraill

I gael gwybod rhagor am fudd personol pan fydd yn codi:

- oherwydd y ffordd y mae sefydliad wedi'i gyfansoddi - gweler ein canllaw **Dewis a pharatoi dogfen lywodraethol** (CC22) (Nid yw'n rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)
- o ganlyniad i'r ffordd y mae'r elusen yn cael ei rhedeg (megis penderfyniad gan yr ymddiriedolwyr i dalu ymddiriedolwr am ddarparu gwasanaethau i'r elusen) - gweler ein canllaw budd cyhoeddus **Budd Cyhoeddus: rhedeg elusen** (PB2)

Rhan 7: Gwybodaeth bellach

Mae'r rhan hon yn rhoi dolenni i ganllawiau eraill a allai fod o ddiddordeb i chi mewn perthynas â'r canllaw hwn.

Mae'r canlynol wedi'i gynnwys yn ein cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus:

- **Budd Cyhoeddus: rhedeg elusen** (PB2)

Mae'r canllaw hwn yn esbonio budd cyhoeddus yng nghyd-destun rhedeg elusen.

- **Budd cyhoeddus: adrodd** (PB3)

Mae'r canllaw hwn yn esbonio dyletswydd ymddiriedolwyr i adrodd yn eu Hadroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar sut y maent wedi cyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd.

Nid yw'r canlynol wedi'i gynnwys yn ein cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus:

- **Budd cyhoeddus: trosolwg**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi Budd cyhoeddus: trosolwg. Mae'n esbonio:

- sut y bydd deall budd cyhoeddus yn helpu ymddiriedolwyr elusen
- dyletswydd ymddiriedolwyr i 'ystyried' ein canllawiau budd cyhoeddus
- rhai pwyntiau allweddol i wybod am y gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus

- **Dadansoddiad o'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus**

Mae'r dadansoddiad hwn yn grynodeb o'n barn am y gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus.

- **Beth sy'n gwneud elusen** (CC4)

Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth sydd ei angen yn ôl cyfraith Cymru a Lloegr er mwyn bod yn elusen.

- **Dechrau elusen**

Canllawiau cyffredinol ar sefydlu a chofrestru elusen newydd.

- **Disgrifiadau o ddibenion**

Canllawiau ar sgôp ac ystyr y 13 disgrifiad o ddibenion yn y Ddeddf Elusennau.

Atodiad A: Rheolau gwahanol ar gyfer elusennau tloidi

Beth sydd ei angen er mwyn i ddiben i atal neu leddfu tloidi fod 'er budd y cyhoedd'

Gofyniad cyfreithiol: yn gyffredinol, at ddiben bod yn elusennol mae'n rhaid bodloni'r agweddau 'budd' a 'chyhoeddus' ar fudd cyhoeddus.

Fodd bynnag, os mai'r diben yw atal neu leddfu tloidi, mae'r sefyllfa yn wahanol.

Yn achos elusennau sy'n lleddfu (ac mewn rhai achosion yn atal) tloidi, mae'r llysoedd yn ystyried bod modd bodloni'r gofyniad budd cyhoeddus drwy fodloni'r agwedd 'budd' yn unig. Yn yr achosion hyn nid oes unrhyw ystyriaeth ar wahân o'r agwedd 'cyhoeddus'.

Gofyniad cyfreithiol: dim ond elusennau sydd â diben i leddfu (ac mewn rhai achosion atal) tloidi sy'n gallu diffinio pwy all gael budd drwy gyfeirio at:

- eu perthynas deuluol (sy'n golygu eu tras o un unigolyn)
- eu cyflogaeth gan gyflogwr
- eu haelodaeth o gymdeithas anghorfforedig

Gofyniad cyfreithiol: ni all elusen gael diben sydd er budd unigolion a enwir, boed yn dlawd neu beidio. Dyma'r achos hyd yn oed os mai'r cymhelliant yw lleddfu tloidi ac mae'r unigolion a enwir yn digwydd bod yn dlawd.

Darparu gwasanaeth i bobl sydd â 'nodwedd a warchodir'

Yn gyffredinol, gall elusennau sy'n lleddfu (ac mewn rhai achosion yn atal) tloidi gynnig budd i ran gulach o'r cyhoedd nag y gallai fod yr achos i elusennau sydd â dibenion eraill.

Gofyniad cyfreithiol: fodd bynnag, hyd yn oed yn achos 'elusennau tloidi', gyda'r diben o ddarparu gwasanaeth i bobl wedi'u diffinio gan 'nodwedd a warchodir' yn unig yn y Ddeddf Cydraddoldeb (megis oedran, rhyw, anabledd, hil), mae'n rhaid i ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb gael eu bodloni o hyd. Mae hynny'n golygu bod rhaid cyfiawnhau cyfyngu'r gwasanaeth i'r bobl hynny yn unig.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler:

- **Cyfyngu pwy all gael budd gan elusennau** (Nid yw hyn yn rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Atodiad B: Termau technegol

Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio yn y canllaw hwn, a dylid deall bod ganddynt yr ystyrion penodol fel y nodir isod:

Deddf Elusennau: Deddf Elusennau 2011.

Ymddiriedolwyr elusen: y bobl sy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu elusen. Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu'n aelodau pwyllgor. Mae ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol.

Dogfen lywodraethol: dogfen gyfreithiol sy'n pennu dibenion elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, erthyglau cymdeithasu, ewylllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, cynllun y Comisiwn Elusennau neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Amcanion: 'Amcanion' elusen yw datganiad o'i ddibenion. Fel arfer fe'u gwelir yng 'nghymal amcanion' dogfen lywodraethol yr elusen. Fodd bynnag, nid oes gan bob elusen ddogfen lywodraethol gyda chymal amcanion.

Fel arfer mae cymal amcanion elusen yn golygu'r un peth â'i dibenion, ond weithiau maen nhw ychydig yn wahanol, e.e.:

- pan nad yw'r cymal amcanion yn mynegi dibenion y sefydliad yn ddigonol neu'n gyflawn
- mae'r cymal yn cynnwys mwy na dim ond yr amcanion, megis pwerau

Gofyniad cyfreithiol: **y gofyniad budd cyhoeddus:** y gofyniad cyfreithiol sy'n datgan, er mwyn bod yn elusen, rhaid i ddibenion sefydliad fod er budd y cyhoedd.

Diben(ion) a diben(ion) elusennol: defnyddiwn y term '**diben(ion)**' i olygu diben(ion) sefydliad unigol. Diben eich elusen yw'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w gyflawni.

Gofyniad cyfreithiol: i fod yn '**ddiben elusennol**' mae'n rhaid i ddiben gael ei gynnwys o fewn un o'r disgrifiadau o ddibenion yn y Ddeddf Elusennau a bod er budd y cyhoedd. Rhaid bod modd dangos hyn ym mhob achos.

Y llysoedd: defnyddiwn y term hwn i olygu, gyda'i gilydd, y Tribiwnlys, yr Uwch Dribiwnlys a'r llysoedd.

Y Tribiwnlys: y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) yw lefel gyntaf apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn Elusennau a amlinellwyd yn Atodlen 6 o'r Ddeddf Elusennau.

Yr Uwch Dribiwnlys: Yr Uwch Dribiwnlys (y Siambwr Dreth a Siawnsri) yw ail lefel apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn a amlinellwyd yn Atodlen 6 o'r Ddeddf Elusennau.